# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 12/07/2022

**Yn Bresennol :**

**Y Cynghorwyr :** Menna Baines, Meryl Roberts, Paul Rowlinson a Beca Brown (Aelod Cabinet)

**Eraill:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill :** Eirian Bradley Roberts (Yr Eglwys Gatholig) a Naomi Wood (Yr Eglwys yng Nghymru)

**Athrawon :** Miriam Amlyn (NAS/UWT)

**Swyddogion :** Einir Rh Davies (Swyddog Cefnogi Aelodau), Buddug Mair Huws (Swyddog Adnoddau Cynorthwyol a Chlerc CYSAG) a Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr y Cyngor)

## 1. GWEDDI NEU FYFYRDOD TAWEL

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Y Cynghorydd Paul Rowlinson a chymerwyd y cyfle am fyfyrdod tawel.

## 2. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Menna Baines yn Gadeirydd y pwyllgor hwn am y cyfnod 2022/23. Diolchwyd i'r Cynghorydd Paul Rowlinson am Gadeirio CYSAG dros y pum mlynedd diwethaf.

## 3. ETHOL IS GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Meryl Roberts yn Is Gadeirydd y pwyllgor hwn am y cyfnod 2022/23.

## 4. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cathryn Davey, Y Cynghorydd Elin Walker Jones a Gwawr M Williams.

## 5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**6. MATERION BRYS - DIWEDDARIAD AR Y MAES LLAFUR CYTUNEDIG AR GYFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG O FEWN Y CWRICWLWM NEWYDD I GYMRU**

Cytunodd y Cadeirydd i gais i drafod yr uchod fel mater brys. Nodwyd siom, er bod y Gynhadledd Cytunedig wedi ei chynnal ers 15 Chwefror, 2022, oedd mewn da bryd ar gyfer y tymor newydd, nad oedd yr Awdurdod wedi gallu symud materion ymlaen. Yn ychwanegol, nodwyd pryder am y diffyg arweiniad gyda y camau nesaf. Cadarnhawyd bod cyngor wedi dod i law erbyn hyn, a'i bod yn ymddangos bod angen cymeradwyaeth y Cabinet cyn gallu symud ymlaen a rhyddhau y maes llafur cytunedig yn ffurfiol i Ysgolion. Nodwyd yr angen i'r Adroddiad fynd gerbron y Cabinet yn ei gyfarfod ym mis Medi yn cynnig argymell derbyn y ddau faes llafur cytunedig. Nodwyd pryder bod nifer o ysgolion yn cychwyn y tymor newydd heb arweiniad, yn enwedig yr ysgolion sydd yn cyflwyno i Flwyddyn 7 ym mis Medi, gan mai argymell parhau gyda yr un presennol i Flwyddyn 8 ymlaen oedd yr argymhelliad. Cadarnhawyd bod arolygiadau Estyn yn ail-gychwyn hefyd a nodwyd effaith yr uchod ar arolygiadau Estyn.

**PENDERFYNWYD,** yn dilyn y gynhadledd, trafod yr uchod, ac er mwyn arbed llithriad pellach, bod yr Adran Addysg yn paratoi adroddiad ar gyfer sylw y Cabinet cyn gynted â phosib, yn argymell derbyn y ddau faes llafur cytunedig a argymhellwyd gan y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2022.

Ymddiheurwyd na fyddai modd rhyddhau y maes llafur yn ffurfiol i Ysgolion, nes derbyn cymeradwyaeth y Cabinet.

**7. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y tri chyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2021, 23 Tachwedd 2021 ac 1 Chwefror 202210 Chwefror, 2021 fel rhai cywir, a bu i'r Cadeirydd eu llofnodi. Nodwyd y pryder nad oedd modd i lawer o weithgareddau arferol CYSAG gymryd lle, nid yn unig oherwydd y sefyllfa Covid, ond oherwydd y sefyllfa o ran diffyg quorum yn y tri cyfarfod diwethaf.

**8. AELODAETH CYSAG**

Cadarnhawyd bod nifer o seddi gwag ar CYSAG er bod gwahoddiadau wedi eu hymestyn i'r enwadau, yn dilyn ail-edrych ar y Cyfansoddiad yn 2019. Amlygwyd yr angen i ail-edrych ymhellach ar y Cyfansoddiad o ran seddi gwag y cynrychiolwyr athrawon. Cadarnhawyd, yn sgil uno undebau a'r nifer cynyddol o aelodau yn y tair prif Undeb erbyn hyn, bod angen llenwi pum sedd athrawon yn y Cyfansoddiad. Awgrymwyd y byddai yn fuddiol cynnig sedd yr un i gynrychiolwyr y tair prif undeb, ynghyd â cheisio cynrychiolydd o GYDGA a GCSU. Cytunwyd bod hon yn ffordd dda o lenwi y seddi, ac y byddai yn ffordd o annog cydweithio da rhwng Undebau, cynrychiolydd o'r sector uwchradd a chynrychiolydd o'r sector gynradd.

O ran yr enwadau crefyddol, nodwyd bod y Cabinet wedi penderfynu ymestyn y cynrychiolwyr i gynnwys Iddewon a Mwslemiaid, ac er ei bod yn ymddangos bod swyddogion wedi ceisio cael cynrychiolwyr, nad oeddynt wedi llwyddo, ond nodwyd bod angen parhau i geisio cael cynrychiolwyr.

**PENDERFYNWYD**:

1. Yn dilyn y gwaith ail-edrych ar Gyfansoddiad CYSAG yn 2019, ble ychwanegwyd at y crefyddau, mewn ymateb i'r pryder bod nifer o seddi gwag ar CYSAG, penderfynwyd bod angen gofyn i'r Cabinet ail-edrych ar yr Aelodaeth eto.

2. Paratoi adroddiad i'r Cabinet, yn argymell addasu y Cyfansoddiad i gynnwys pum sedd addysg, i gynnwys y Prif Undebau a chynrychiolwyr o GYDGA a GCSU.

3. Ail holi am aelodau i gynrychioli'r Eglwys Fethodistaidd a'r Annibynwyr a'r crefyddau eraill nad ydynt wedi enwebu cynrychiolwyr eto

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG 2020-2021**

**PENDERFYNWYD** derbyn yr Adroddiad, a chytuno i ail-ymweld â'r Holiadur Addysg Grefyddol sydd yn cael ei ddosbarthu i ysgolion, gan ystyried ei addasrwydd yn ei ffurf bresennol.

**10. MATERION CYSAGau**

**PENDERFYNWYD** derbyn yr ohebiaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.30 p.m. a daeth i ben am 4.20 p.m.

**CADEIRYDD.**